# Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

Yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol

14 Hydref 2019

# Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol i Fil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Datganiad yr Aelod**
Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 14 Hydref 2019, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Vaughan Gething AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n Gyfrifol am y Bil

14 Hydref 2019

# Tudalen Gynnwys

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**........................................ .......**4**

1. Disgrifiad............................................................................................... 4
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol................................................................ 4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael....................... 4
4. Ymgynghori...........................................................................................9
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth......................................................... 10

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**.......................................... **13**

1. Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol..........................................13
2. Yr opsiynau........................................................................... ...........17
3. Costau a manteision............................................................................ 18
4. Asesiadau o’r effaith.............................................................................20
5. Adolygu ar ôl gweithredu......................................................................28

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol...........................................................29**
**ATODIAD 2 – Mynegai Rheolau Sefydlog...................................................32**
**ATODIAD 3 – Atodlen o Ddiwygiadau.......................................................38**

# Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) yn diwygio Adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf GIG Cymru") (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd gwladol) er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch indemnio treuliau ac atebolrwyddau etc corff neu bersonau sy'n codi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau iechyd.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Cefndir

3.1. Mae sicrwydd esgeuluster clinigol yn un o amodau cofrestru yn y DU ar gyfer holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u rheoleiddio, ac yn achos ymarferwyr meddygol (h.y. Ymarferwyr Cyffredinol), mae'n un o amodau trwydded o dan adran 44C o Ddeddf Feddygol 1983. Gall y sicrwydd fod yn bolisi yswiriant, yn drefniant indemniad, neu'n gyfuniad o'r ddau. Mae'r mwyafrif o Ymarferwyr Cyffredinol yn y DU fel rheol yn cael sicrwydd indemniad fel un o fuddion eu haelodaeth gan un o'r tri o Sefydliadau Amddiffyn Meddygol ("MDOs"), sefydliadau cydfuddiannol ddim er elw a berchnogir gan eu haelodau ac sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu indemniad a chyngor i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

3.2. Amcangyfrifir bod cost indemniad wedi codi 7% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2013 a 2017. Ymysg y ffactorau sy'n arwain at godi costau indemniad mae poblogaeth sy'n heneiddio; arloesi technolegol mewn meddyginiaeth sy'n cadw pobl yn fyw am gyfnod hwy; cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â chyflyrau cymhleth a diwylliant o hawlio iawndal. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod dirywiad yn ansawdd y gofal wedi arwain at gynnydd mewn costau indemniad.

3.3. Crybwyllwyd y cynnydd mewn costau indemniad (fel y'i hadlewyrchir yn nhanysgrifiadau MDO) fel un o'r rhesymau paham y mae Ymarferwyr Cyffredinol yn gostwng eu horiau, ac os bydd y duedd

yn parhau, fe allai greu prinder pellach o Ymarferwyr Cyffredinol[1] gan y cânt eu gyrru i ffwrdd o'r proffesiwn yn gynyddol gan arwain at effaith ar ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru, fel rhan o'r newidiadau i gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2017/18[2], i ddatblygu ateb i'r mater hwn.

3.4. Ar 27 Chwefror 2017, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor[3] newid i Gyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol (“PIDR”) (sef y gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo'r iawndal sy'n daladwy mewn perthynas â cholledion ariannol) o 2.5% i finws 0.75%[4]. O ganlyniad i'r newid hwn, cafwyd cynnydd sylweddol yng nghost hawliadau mawr ar gyfer anaf personol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mawr yng nghost bodloni atebolrwyddau hanesyddol ar gyfer MDOs, darparwyr presennol sicrwydd indemniad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr meddygol. Gan mai cyrff cydfuddiannol yw MDOs, ni ellid talu am y cynnydd hwn ond trwy gynyddu costau tanysgrifiad aelodaeth ymhellach. Amcangyfrifwyd y byddai angen i bremiymau indemniad gynyddu 25% i ariannu'r newid yn PIDR.

3.5. Mewn ymateb i effaith y newid i PIDR a chost gynyddol indemniad yn ehangach ar y farchnad amddiffyn meddygol, ym mis Hydref 2017 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr fwriad i sefydlu cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ac a ariennir gan y llywodraeth i ddarparu sicrwydd indemniad esgeuluster clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr. Diben y cynllun, a fyddai'n cychwyn yn Ebrill 2019, oedd–

- Indemnio unigolion rhag hawliadau sy'n deillio o esgeuluster clinigol ar gyfer gwaith y GIG, ond ni fydd yn cynnwys gwaith preifat, cwynion, cyfranogaeth yn achosion y crwner, gwrandawiadau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol na materion eraill yn ymwneud â rheoleiddio proffesiynol. Disgwylid i Ymarferwyr Cyffredinol godi polisi indemniad ar wahân ar gyfer yr agweddau hynny nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y cynllun.

Cynnwys sicrwydd ar gyfer atebolrwyddau esgeuluster clinigol yn y dyfodol yn achos Ymarferwyr Cyffredinol sy'n cyflawni gwaith y GIG (Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS)) sy'n codi ar ôl 1 Ebrill 2019.

- Ar 14 Mai 2018, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu

**1** Mewn ymateb i'r gost gynyddol hon dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain “*The potential consequences of this could make the provision of unscheduled GP services unsustainable”.*

**2**http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/480/GMS%20contract%202017%2018%20Grant%20Duncan%2014%20March%20%20v2.pdf

**3** https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-indemniad-proffesiynol-i-ymarferwyr-cyffredinol

**4**Cafodd PIDR ei newid ymhellach i minws 0.25% ar 15 Gorffennaf 2019. Nid yw'r effaith ar y farchnad indemniadau adeg llunio'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i meintioli.

indemniad esgeuluster clinigol i ddarparwyr gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru[5]. Byddai FLS yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019 (i fodloni atebolrwyddau'r dyfodol) a byddai'n cwmpasu'r holl Ymarferwyr Cyffredinol â chontract GMS a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio yn ymarfer cyffredinol y GIG o'r dyddiad hwnnw. Byddai FLS yn helpu i fynd i'r afael â phryderon Ymarferwyr Cyffredinol ynghylch fforddiadwyedd costau indemniad proffesiynol ac yn sicrhau ateb hirdymor cynaliadwy i fynd i'r afael â chostau cynyddol indemniad proffesiynol. Daeth Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019 yn sefydlu'r FLS i rym ar 1 Ebrill 2019. Yng Nghymru, mae FLS yn cael ei weinyddu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn unol â Chyfarwyddydau'r Cynllun Esgeuluster Clinigol (Gweinyddu) (Cymru) 2019.

3.6. Mae'r FLS yng Nghymru wedi cyd-fynd cyn belled â phosibl â'r cynllun sydd wedi'i gefnogi gan y wladwriaeth a gyflwynwyd hefyd ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer darparwyr gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr gan Lywodraeth y DU. Mae hyn wedi sicrhau nad yw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr a bydd hefyd yn helpu i sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar weithgarwch trawsffiniol neu recriwtio yn sgil gwahanol gynlluniau yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr.

3.7. Ar 15 Tachwedd 2018 Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru[6], fel rhan o'r cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth, i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ystyried atebolrwydd Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer yr hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol hynny yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019 (yr ELS), yn ddarostyngedig i gwblhau diwydrwydd dyladwy cyfreithiol [7]ac ariannol a negodiadau boddhaol â'r MDOs. Mae'r ymrwymiad i estyn y cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gwmpasu atebolrwyddau presennol yn adlewyrchu'r ymrwymiad a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i estyn trefniadau'r cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth yn Lloegr i gwmpasu atebolrwyddau presennol. Mae trafodaethau gyda MDOs ar drefniadau ELS yn parhau.

3.8. Y bwriad polisi yw cyflwyno rheoliadau i sefydlu ELS, yn ddarostyngedig i ddeddfu'r Bil. Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu paratoi rheoliadau a fydd yn sail i ELS Lloegr.

**5** https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-indemniad-proffesiynol-i-ymarferwyr-cyffredinol
**6** https://gov.wales/written-statement-gp-professional-indemnity-0
**7** Mae mynediad i wybodaeth diwydrwydd dyladwy yn gyfyngedig oherwydd ei sensitifrwydd masnachol a chytundebau peidio â datgelu rhwng MDOs a Llywodraeth Cymru.

3.9. Mae adran 30 o Ddeddf GIG Cymru'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu cynlluniau indemniad lle y mae sawl corff yn bodloni eu hatebolrwyddau ar y cyd. Mae'r cyrff hyn yn gyfyngedig i gyrff y gwasanaeth iechyd.

3.10. Nid yw cwmpas y pwerau hyn yn ddigonol i ganiatáu i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun trwy reoliadau i indemnio darparwyr gwasanaethau meddygol sylfaenol yn uniongyrchol.

3.11. Mae'r Bil yn ehangu'r cyrff y gellir eu cynnwys o dan gynllun a sefydlwyd yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol â'u pwerau yn adran 30(1). Bydd y cyrff ychwanegol a fewnosodir yn adran 30(2) yn cynnwys yr holl bersonau hynny sy'n darparu, neu sydd wedi darparu, gwasanaethau Meddygol Sylfaenol yng Nghymru yn unol â threfniant yn unol â Deddf GIG Cymru, yn ogystal â chorff neu berson arall sy'n darparu, neu'n trefnu darparu, neu a ddarparodd neu a drefnodd ddarparu, gwasanaethau iechyd y mae eu darparu'n destun trefniadau â Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth y GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae adran 30(1) hefyd yn cael ei diwygio hefyd er mwyn egluro'r cynlluniau y mae'n gymwys iddynt trwy gynnwys 'cynllun indemniad cydfuddiannol'.

3.12. Mae'r Bil yn mewnosod darpariaeth yn adran 30 yn pennu y gall Gweinidogion Cymru sefydlu cynllun trwy reoliadau i indemnio, yn uniongyrchol, y cyrff hynny a restrir yn is-adran (2) (fel y'i diwygiwyd gan y Bil). Effaith y bwriad i gynnwys yn adran 30 rheoliad penodol, ychwanegol sy'n gwneud darpariaeth fydd rhoi i Weinidogion Cymru'r is-ddeddfwriaeth ofynnol sy'n gwneud pŵer i ddeddfu rheoliadau i sefydlu cynllun indemniad uniongyrchol. Mae'r Bil yn caniatáu i Ymarferwyr Cyffredinol a'r cyrff neu'r personau eraill gael eu hindemnio gan Weinidogion Cymru o dan delerau cynllun statudol. Mae'r Bil yn enwi'r "cynlluniau indemniad uniongyrchol" hyn. I'r gwrthwyneb, mae'r cydgynlluniau o dan adran 30(1) bellach yn cael eu labelu'n "gynlluniau indemniad cydfuddiannol" gan y Bil.

3.13. Caiff unrhyw reoliadau sy'n sefydlu cynllun indemniad uniongyrchol bennu pwy sy'n gyrff neu'n bersonau cymwys, pa fath o dreuliau neu atebolrwyddau a gynhwysir ac i ba raddau y maent wedi'u hindemnio a nodi pa daliadau y gall fod eu hangen gan berson sydd wedi'i indemnio gan gynllun, ymhlith pethau eraill.

3.14. Mae'r Bil hefyd yn mewnosod diffiniad o 'swyddogaethau' at ddibenion adran 30 ynghyd â gwneud mân ddiwygiadau eraill o ganlyniad i'r newidiadau sylweddol y mae'r Bil yn eu gwneud. Nid oes unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i unrhyw ddeddfiad arall.

3.15. Bydd rheoliadau ELS a wneir yn unol ag gw (fel y'i diwygiwyd gan y Bil) yn sefydlu, trwy reoliadau, yr ELS (fel cynllun indemniad uniongyrchol). Bydd y rheoliadau'n nodi sut y bydd Gweinidogion

Cymru'n ystyried atebolrwydd Ymarferwyr Cyffredinol ac yn gwneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus o dan yr indemniad a ddarperir i Ymarferwyr Cyffredinol. Bydd ELS yn gymwys i'r hawliadau esgeuluster clinigol hynny yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019 yn unol â'r cytundebau cyfreithiol arfaethedig rhwng Gweinidogion Cymru ac MDO sy'n cymryd rhan.

3.16. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 "continue the promotion in Wales of a comprehensive health service designed to secure improvement in the physical and mental health of the people of Wales and in the prevention, diagnosis and treatment of illness". Yn enwedig, bydd effaith y Bil wrth ddarparu'r sylfaen gyfreithiol dros gyflwyno rheoliadau ELS, ynghyd â chynllun ELS a gyflwynwyd yn Ebrill 2019, yn sail i gynaliadwyedd hirdymor darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol a bydd yn helpu i sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar weithgarwch trawsffiniol neu recriwtio yn sgil gwahanol gynlluniau yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr.

3.17. I gloi, bydd y Bil yn golygu bod Gweinidogion Cymru, trwy gyflwyno rheoliadau ELS, yn cyflawni'r ymrwymiad i gyflwyno cynllun indemniad a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru.

**Risgiau**

3.18. Os na chaiff y diwygiadau i adran 30 eu gwneud, ni ellir gwneud rheoliadau ELS yn eu tro, gyda'r risgiau canlynol;

i. Mae'n bosibl na fydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu hymrwymiad i gyflwyno cynllun atebolrwyddau'r dyfodol a chynllun atebolrwyddau presennol i Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru.
ii. Gallai Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru fod o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr a gallai fod effaith andwyol ar recriwtio Ymarferwyr Cyffredinol a gweithgarwch trawsffiniol.
iii. Ni chaiff sefydlogrwydd darpariaeth indemniad ar gyfer Ymarferwyr Cyffredinol ac amddiffyn cleifion ac Ymarferwyr Cyffredinol a fyddai'n deillio o drefniadau ELS ei sicrhau yn llawn.
iv. Bernir bod ymarfer fel Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru yn ddewis llai deniadol o'i gymharu â Lloegr gan ddwysáu'r anhawster a wynebir gan bractisau Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru wrth recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol.
v. Byddai unrhyw ostyngiad yn nifer yr Ymarferwyr Cyffredinol sy'n ymarfer yng Nghymru felly'n lleihau mynediad gan bobl Cymru i

wasanaethau meddygol cyffredinol, yn groes i ymrwymiad allweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ‘Ffyniant i Bawb’[8].

**Y sylfaen dystiolaeth**

3.19. Mae'r penderfyniad i sefydlu cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth wedi'i ysgogi gan y digwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 3.1 – 3.6.

3.20. Nid yw'r Bil ei hun yn codi unrhyw wariant ar Gronfa Gyfunol Cymru. Felly, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys gwybodaeth ariannol gyfyngedig ynghylch y Bil hwn.

## 4. Ymgynghori

4.1. Aed ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid ers y cyhoeddiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cynllun indemniad clinigol a gefnogir gan y wladwriaeth ar 14 Mai 2018. Mae'r proffesiwn meddygol a'i gynrychiolwyr[9] ynghyd â'r MDOs, wedi cael gwybod am y datblygiadau mewn perthynas â FLS ac ELS.

4.2. Ar 18 Hydref 2017 ac ar 16 Mai 2018 trafododd y Cynulliad gwestiynau amserol yn ymwneud ag indemniad proffesiynol. Gweler y dolenni i'r Cofnod o'r Trafodion perthnasol isod.

http://record.assembly.wales/Plenary/4651#C28739

http://record.assembly.wales/Plenary/4984#C88145

4.3. Ym mis Awst 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ffeithlen ar Indemniad Proffesiynol i Ymarferwyr Cyffredinol ar ddatblygu ateb tymor hir a chynaliadwy ar gyfer indemniad proffesiynol i Ymarferwyr Cyffredinol. Mae'r ffeithlen yn tanlinellu bod swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos ag Ymarferwyr Cyffredinol, Sefydliadau Amddiffyn Meddygol, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Byrddau Iechyd, Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i ddatblygu'r ffordd y bydd y cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth yn gweithredu. Fe danlinellodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i FLS ac ELS, yn ddarostyngedig i gwblhau diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a thrafodaethau boddhaol â'r MDOs. Cafodd y bwriad i ymrwymo i ELS yn ymdrin â hawliadau esgeuluster clinigol sydd wedi codi cyn Ebrill 2019, ei gadarnhau hefyd yn Natganiad Ysgrifenedig Gweinidogol Tachwedd 2018 a Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol Chwefror 2019.

**8** https://gweddill.gov.wales/docs/strategies/181002-prosperity-for-all-annual-report-cy.pdf
9. Gan gynnwys Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

4.4. Cafwyd trafodaethau rheolaidd â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ar gynnydd ar y cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer yr FLS trwy Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Trafododd Llywodraeth Cymru hefyd ar wahân â'r Sefydliadau Amddiffyn Meddygol y cynigion i gyflwyno'r ELS, yn ddarostyngedig i gwblhau diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a thrafodaethau boddhaol â'r MDOs.

4.5. O gofio'r farn nad yw'r diwygiadau i adran 30 a wneir gan y Bil yn effeithio ar y cyhoedd, ond dim ond ar sectorau penodol o'r gwasanaeth iechyd sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r bil, ni farnwyd ei bod yn briodol cynnal ymgynghoriad agored ar Fil drafft.

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1. Mae’r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn nodi’r canlynol mewn perthynas â’r rhain:

i. y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;
ii. ar ba ffurf y mae’r pŵer i gael ei arfer
iii. priodoldeb y pŵer dirprwyedig
iv. y weithdrefn gymhwysol, hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

5.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i’r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1(2) a 1(3) – yn diwygio adrannau 30(1) a (2) o Ddeddf GIG Cymru | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer sy'n bodoli eisoes yn adran 30(1) o Ddeddf GIG Cymru yn briodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan ei bod yn galluogi cynllun neu gynlluniau indemniad i gael eu sefydlu, y gall y manylion amrywio o achos i achos. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Bil hwn i'r pŵer yn egluro mai cynlluniau indemniad cydfuddiannol yw'r cynlluniau, ac yn ehangu'r cyrff y gellir eu cynnwys mewn cynllun. | Negyddol | Pennir y weithdrefn gan Ddeddf GIG Cymru. |
| 1(8) – yn mewnosod is-adran 30(8) newydd yn Neddf GIG Cymru | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol, mewn ffordd sy'n gyson â'r cynlluniau cydfuddiannol a sefydlwyd mewn rheoliadau a wneir o dan adran 30(1). Yn addas ar gyfer rheoliadau gan y byddant yn cynnwys manylion a fyddai'n gwneud darllen y Bil yn feichus (ac | Negyddol | Mae'n gyson dilyn yr un weithdrefn graffu sy'n gymwys i'r cynllun cydfuddiannol a sefydlir gan y pŵer presennol yn adran 30(1) o Ddeddf GIG Cymru, fel y'i diwygiwyd. Ymhellach, bydd manylion y rheoliadau hyn yn dechnegol eu natur. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | wedyn adran 30 pan fydd wedi'i diwygio). | | |

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau yn narpariaethau Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1(5) – yn diwygio adran 30(4) o Ddeddf GIG Cymru | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Nid oes unrhyw newid i gwmpas y pŵer hwn. Mae'r diwygiad a wneir gan y Bil yn pennu cyrff y GIG y gall Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo yn unol ag is-adran (4) o ganlyniad i ehangu'r cyrff a gynhwysir gan is-adran (2) fel y'i diwygiwyd. | Dim gweithdrefn | Pennir y weithdrefn gan Ddeddf GIG Cymru. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 1. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

1.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.

1.2. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

1.3. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r Costau a Manteision i'r Bil yn ei grynswth. Mae'r tabl wedi'i ddylunio i gyflwyno'r wybodaeth ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

1.4. Mae'r diwygiadau i adran 30 o Ddeddf GIG Cymru a wneir gan y Bil yn rhai ar wahân ac ynddynt eu hunain ni fyddant yn denu unrhyw gostau, oni ddefnyddir y pwerau i wneud rheoliadau a than hynny. Fel y cyfryw nid oes unrhyw wybodaeth ariannol uniongyrchol yn ymwneud ag ef. Rydym wedi darparu naratif felly ynghylch manteision na ellir eu meintioli o safbwynt ariannol.

1.5. Manteision y diwygiadau a wneir gan y Bil fydd rhoi pŵer pellach i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â darparu indemniad i ddarparwyr gwasanaethau meddygol sylfaenol. Defnyddir y pŵer hwn ar unwaith i wneud rheoliadau yn sefydlu ELS, yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy a negodi â'r sefydliadau amddiffyn meddygol, fel y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Esboniadol.

1.6. Mae cost gynyddol indemniad meddygol wedi effeithio ar holl Ymarferwyr Cyffredinol y Deyrnas Unedig. Fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol ym mharagraffau 3.5-3.8, cydnabu Llywodraeth Cymru'r broblem ac fe wnaeth ymrwymiad i Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru i gyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer atebolrwyddau'r dyfodol (yr FLS, a elwir yn Gynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol) a lansiwyd ar 1 Ebrill 2019. Mae hyn wedi adlewyrchu'r dull gweithredu a arddelwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac rydym wedi sicrhau, cyn belled â phosibl, fod y cynllun yn cyd-fynd â chynllun Lloegr. Byddai sefydlu'r ELS yn cyflawni ail elfen y polisi er mwyn sicrhau sefydlogrwydd i Ymarferwyr Cyffredinol.

1.7. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sefydliad amddiffyn meddygol ("MDO") wedi llofnodi cytundeb ELS lle y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ysgwyddo cyfrifoldeb dros ystyried atebolrwyddau esgeuluster clinigol ymarferwyr cyffredinol y GIG yng Nghymru yr aed iddynt cyn 1 Ebrill 2019 yn dâl am drosglwyddo asedau. Mae trafodaethau'n parhau. Yr amcangyfrif presennol o'r atebolrwyddau

a gâi eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru oedd cytundeb ELS i'w lofnodi gyda phob MDO (yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a thrafodaethau llwyddiannus ar delerau â'r holl MDOs) yw tua £100m cyn i asedau gael eu trosglwyddo .

1.8. Disgwylir i'r cyfryw atebolrwyddau a amcangyfrifir a gâi eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru ddod i'r amlwg dros y cyfnod hyd at 2027, er y gallai gwerth gwirioneddol yr atebolrwyddau amrywio yn ôl patrymau amlder hawliadau, hysbysu am hawliadau a gwerth hawliadau sydd wedi'u setlo.

1.9. Yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol â'r MDOs, byddai disgwyl i'r goblygiadau ariannol net, gan gynnwys trosglwyddo asedau, yn achos Llywodraeth Cymru, ostwng yn flynyddol dros y cyfnod hyd at 2027.

## Tabl A

| ***Bil y GIG (Indemniadau) (Cymru)*** | | |
|---|---|---|
| Dewis a ffefrir: Diwygio adran 30 o Ddeddf GIG Cymru 2006, gweler tudalen XX o'r RIA | | |
| **Cyfnod:** Introduction | **Cyfnod Arfarnu:** 2019 / 2020 – 2026-27 | **Blwyddyn sail brisiau: 2019/2020** |
| **Cyfanswm y Gost**<br>**Cyfanswm: £ 30,000**<br>**Gwerth presennol: £30,000** | **Cyfanswm Manteision**<br>**Cyfanswm: £0**<br>**Gwerth presennol: £0** | **Gwerth Presennol Net: £-30,000** |

## Cost weinyddol

| **Costau: *Rhoi'r Bil ar waith***<br><br>Cost – Drafftio arfaethedig Rheoliadau ELS<br>Y costau hyn yw'r costau staff amcangyfrifedig i weithredu'r Bil gan ddefnyddio'r pwerau newydd y Cynllun Indemniad Uniongyrchol i wneud rheoliadau a gyflwynir gan y Bil. Amcangyfrifir mai £30,000 fydd y costau hyn ac eir iddynt yn 2019-20. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau. | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £30,000** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £ 30,000** | **PV: £30,000** |
| **Arbedion costau:**.<br>Ni nodwyd unrhyw arbedion costau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **PV: £0** |
| **Cost gweinyddu net:£30,000** | | | |

## Costau cydymffurfio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nid oes unrhyw gostau cydymffurfio o ganlyniad i'r Bil o gofio natur gyfyngedig darpariaethau'r Bil | | | |
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **PV: £0** |

## Costau eraill

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **PV: £0** |

## Costau ac anfanteision heb eu meintioli

| |
|---|
| Nid oes costau heb eu meintioli |

## Manteision

| |
|---|
| Prif ddiben y Bil fydd galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol. Yn y tymor byr, mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld defnyddio'r pŵer hwn i sefydlu cynllun indemniad uniongyrchol a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i indemnio Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt eto cyn 1 Ebrill 2019 (yr ELS). Trwy ddiwygio adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn sefydlu ELS, mae Llywodraeth Cymru'n diogelu i'r dyfodol o ran effeithiau, siociau i'r farchnad a phwysau yn sgil digwyddiadau yn y dyfodol yn ymwneud â sicrwydd esgeuluster clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaethau meddygol yng Nghymru. Bydd rheoliadau ELS, yn sail, ynghyd â'r Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol, i gynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru am na fydd unrhyw Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais mewn perthynas ag indemniad |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm: Ddim yn hysbys** | **PV: Ddim yn hysbys** |

## Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

| |
|---|
| Mae'r math o gynllun indemniad a ragwelir gan yr ELS yn gofyn am ddiwygiad i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymgynghorwyr i gynnal dadansoddiad o'r farchnad amddiffyn meddygol yng Nghymru i nodi opsiynau cynaliadwy tymor hir i Gymru i fynd i'r afael â chostau cynyddol indemniad proffesiynol i Ymarferwyr Cyffredinol. Cafodd hyn ei gwblhau ym Mawrth 2018 ac fe lywiodd y penderfyniad i sefydlu cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ar y cyd â'r digwyddiadau a grybwyllir ym mharagraffau 3.1 - 3.8 o'r Memorandwm Esboniadol. |

## 2. Yr Opsiynau

2.1. Mae dau ddewis ynghylch y Bil hwn – naill ai

a) Gwneud dim
b) Gwneud y diwygiadau i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006

### a) Gwneud dim

2.2. Mae cadw'r status quo'n golygu y bydd pwerau Gweinidogion Cymru yn adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn aros heb eu newid. At ddibenion cyflawni polisi cynllun indemniad a gefnogir gan y wladwriaeth, ni fyddai gan Weinidogion Cymru'r pwerau angenrheidiol o hyd i wneud is-ddeddfwriaeth o hyd i sefydlu a gweithredu ELS. Gallai'r anghysondeb o ran dull gweithredu i'r dull gweithredu yn Lloegr ei gwneud yn fwy deniadol gweithio yno yn achos Ymarferwyr Cyffredinol sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, neu atal Ymarferwyr Cyffredinol sy'n gweithio yn Lloegr rhag symud i Gymru.

2.3. Effaith gronnol y dewis hwn yw'r risg i'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a achosir gan gostau cynyddol indemniad, sy'n effeithio ar recriwtio a chadw mewn ymarfer cyffredinol, a fydd yn waeth ar gyfer Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru.

### b) Gwneud y diwygiadau i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006

2.4. Prif ddiben y Bil yw diwygio adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a thrwy hynny galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol ar yr amod y cytunir ar drefniadau contractiol â MDOs. Bydd hyn yn hwyluso cyflwyno ELS i atal risgiau i'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a achosir gan gostau cynyddol indemniad, sy'n effeithio ar recriwtio a chadw mewn ymarfer cyffredinol.

2.5. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 “continue the promotion in Wales of a comprehensive health service designed to secure improvement in the physical and mental health of the people of Wales and in the prevention, diagnosis and treatment of illness”.

2.6. Bydd hefyd yn atal ymarfer fel Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru rhag cael ei weld fel dewis llai deniadol o'i gymharu â Lloegr. Bydd hyn yn atal yr anhawster a wynebir gan bractisau Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru wrth recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol rhag cael ei ddwysáu. Bydd hefyd yn cyfrannu at alluogi

Gweinidogion Cymru i gyflawni eu hymrwymiad a wnaed i wella mynediad i wasanaethau meddygol cyffredinol yn ‘Ffyniant i Bawb’.

2.7. Mae adran 30 o Ddeddf Y GIG (Cymru) 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sefydlu cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd. Er hynny nid yw cwmpas y pwerau hyn yn ddigon i sefydlu ELS fel y rhagwelwyd nac i indemnio'r darparwyr hynny o wasanaethau meddygol sylfaenol yn y dyfodol yn ôl yr angen.

2.8. Bydd y diwygiadau i adran 30 a wneir gan y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu cynllun indemniad uniongyrchol trwy reoliadau a fydd yn sefydlu ac yn nodi'r trefniadau gweinyddu i ELS. Bydd ELS yn darparu sicrwydd indemniad mewn perthynas ag atebolrwyddau esgeuluster hanesyddol sy'n deillio o dorri dyletswydd gofal gan Ymarferydd Cyffredinol (neu berson arall sy'n gweithio mewn ymarfer cyffredinol) sy'n arwain at anaf, colled neu ddifrod Ar yr amod y cytunir ar drefniadau contractiol ag MDOs, bydd Gweinidogion Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb (yn ôl eu disgresiwn) dros ystyried atebolrwydd Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer yr hawliadau esgeuluster clinigol hynny yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt cyn 1 Ebrill 2019.

## 3. Costau a Manteision

### a) Gwneud Dim

3.1. Mae cost peidio â gwneud y diwygiad yn golygu bod Gweinidogion Cymru'n cael eu hatal rhag sefydlu elfen ELS o gynllun indemniad Ymarferwyr Cyffredinol trwy reoliadau, gan atal cynllun Cymru rhag cyd-fynd â chynllun Lloegr. Mae hyn yn golygu bod Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr. Bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru - ar draul darparu gofal sylfaenol GIG Cymru i bobl Cymru.

3.2. Mae'r olaf yn bwysig o gofio, yn ôl Bwletin Ystadegau Cymru, fod 2,986 o Ymarferwyr Cyffredinol (pob Ymarferydd, Cofrestrydd ac Ymarferydd Cyffredinol wrth gefn ynghyd â Meddygon Locwm sydd wedi'u cofrestru i weithio) yng Nghymru ar 30 Medi 2018)[10]. Mae'r ffigurau wedi bod yn sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond byddai darparu gwahanol lefelau o sicrwydd indemniad rhwng Cymru a Lloegr yn debygol o effeithio'n andwyol ar y gallu i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru.

3.3. Bernir bod ymarfer fel Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru yn ddewis llai deniadol o'i gymharu â Lloegr gan ddwysáu'r anhawster

**10** https://llyw.cymru/ymarferwyr-meddygol-cyffredinol-ar-30-medi-2018

a wynebir gan bractisau Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru wrth recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol. Byddai unrhyw ostyngiad yn nifer yr Ymarferwyr Cyffredinol sy'n ymarfer yng Nghymru felly'n lleihau mynediad ar gyfer pobl Cymru i wasanaethau meddygol cyffredinol, yn groes i ymrwymiad allweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn *'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol'*.

3.4. I gloi, nid yw Opsiwn a) yn rhoi unrhyw fantais.

**b) Gwneud y diwygiadau i adran 30 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006**

3.5. I'r gwrthwyneb, mae Opsiwn b, sef yr opsiwn a ffefrir, yn gwneud gwahaniaeth. Mae'n cynnig manteision sy'n gyferbyniad llwyr i'r rhai a restrir o dan opsiwn a). Bydd y Bil yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru sicrhau sefydlogrwydd tymor hir i Ymarferwyr Cyffredinol a defnyddwyr gwasanaethau GIG Cymru ym maes indemniad esgeuluster clinigol.

3.6. Bydd y diwygiadau a wneir gan y Bil yn cefnogi'r gwaith o barhau i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru. Byddant yn sicrhau ymhellach na fydd Ymarferwyr Cyffredinol o dan anfantais ym mater pwysig sicrwydd indemniad esgeuluster clinigol a'r gost o'i gymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr. Mae'r diwygiadau felly'n gam cadarnhaol cyntaf a fydd yn sail i ddarparu ELS ar gyfer GIG Cymru.

3.7. Mae costau'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith, pan fydd adran 30 wedi'i diwygio. Y costau hyn, sy'n £30,000 yn ôl yr amcangyfrif, yr eir iddynt yn 2019/20 yw'r costau staff a ragwelir, gan gynnwys cymorth cyfreithiol allanol, i weithredu'r Bil gan ddefnyddio'r pwerau newydd y Cynllun Indemniad Uniongyrchol i wneud rheoliadau a gyflwynir gan y Bil. Nid oes unrhyw gostau eraill i'w priodoli yn uniongyrchol i'r Bil. Mae'r costau a amcangyfrifir ar gyfer cyflawni rheoliadau ELS yn seiliedig ar raglennu safonol offeryn statudol yn dilyn y weithdrefn negyddol. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau. Ni fydd yr MDOs yn mynd i unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r Bil.

3.8. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sefydliad amddiffyn meddygol ("MDO") wedi llofnodi cytundeb ELS lle y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ysgwyddo cyfrifoldeb dros ystyried atebolrwyddau esgeuluster clinigol ymarferwyr cyffredinol y GIG yng Nghymru yr aed iddynt cyn 1 Ebrill 2019 yn dâl am drosglwyddo asedau. Mae trafodaethau'n parhau. Yr amcangyfrif presennol o'r atebolrwyddau a gâi eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru oedd cytundeb ELS i'w lofnodi gyda phob un o'r tri MDO (yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a thrafodaethau llwyddiannus ar delerau â'r holl MDOs) yw tua £100m cyn i asedau gael eu trosglwyddo . Nid yw'r amcangyfrif o £100m am atebolrwyddau yn gost ddisgwyliedig i Lywodraeth Cymru am nad yw'n cymryd i

ystyriaeth unrhyw drosglwyddiadau asedau o MDOs. Nid yw'r amcangyfrif o atebolrwyddau'n gost sy'n deillio o'r Bil.

3.9. Disgwylir i'r cyfryw atebolrwyddau a amcangyfrifir a gâi eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru ddod i'r amlwg dros y cyfnod hyd at 2027, er y gallai gwerth gwirioneddol yr atebolrwyddau amrywio yn ôl patrymau amlder hawliadau, hysbysu am hawliadau a gwerth hawliadau sydd wedi'u setlo.

3.10. Yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a thrafodaethau llwyddiannus â'r MDOs, byddai disgwyl i'r goblygiadau ariannol net, gan gynnwys trosglwyddo asedau, yn achos Llywodraeth Cymru ostwng yn flynyddol dros y cyfnod hyd at 2027, er nad yw union broffil y goblygiadau ariannol dros y cyfnod hwn yn hysbys

3.11. Mae mynediad i wybodaeth fanylach am oblygiadau ariannol ELS yn gyfyngedig oherwydd ei sensitifrwydd masnachol a chytundebau peidio â datgelu rhwng MDOs a Llywodraeth Cymru.

3.12. At ei gilydd, bydd hyn yn cryfhau sefydlogrwydd darpariaeth indemniad i Ymarferwyr Cyffredinol ac yn sicrhau bod cleifion ac Ymarferwyr Cyffredinol yn cael eu diogelu. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu hefyd at allu Gweinidogion Cymru i gyflawni'r ymrwymiad a wnaed i wella mynediad i wasanaethau meddygol cyffredinol yn *'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*'. Bydd Gweinidogion Cymru yn hybu eu dyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 "continue the promotion in Wales of a comprehensive health service designed to secure improvement in the physical and mental health of the people of Wales and in the prevention, diagnosis and treatment of illness".

**Casgliadau**

3.13. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu mai Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir, o gofio'r manteision a ddaw yn ei sgil.

## 4. Asesiadau o'r effaith

### *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?*

4.1. **Y diwygio**

4.1.1. Prif ddiben y Bil fydd galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol. Yn y dyfodol agos, y bwriad yw defnyddio'r pŵer hwn i sefydlu cynllun

indemniad uniongyrchol a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru (yn ôl eu disgresiwn) i indemnio Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt eto cyn 1 Ebrill 2019 (yr ELS). Mae'r diwygiadau i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol, yn ogystal ag ehangu'r cyrff a all wneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau indemniad cydfuddiannol. Bydd rheoliadau ELS, ynghyd â'r Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol, yn sail i i gynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru am na fydd unrhyw Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais mewn perthynas ag indemniad esgeuluster clinigol o'i gymharu â Lloegr. Gallai'r diwygiadau i Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a wneir gan y Bil yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gallu darparu'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol (yr ELS).

4.1.2. Effaith newidiadau i adran 30:

i. Cynyddu pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â darparu cynlluniau indemniad ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru.
ii. Galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried atebolrwydd Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer yr hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol hynny yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019.
iii. Darparu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol Cyffredinol yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru am na fydd unrhyw Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais mewn perthynas â'r ddarpariaeth a gefnogir gan y wladwriaeth o indemniad esgeuluster clinigol o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

## *Sut y mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu cymhwyso:*

4.2. **Tymor hir**

4.2.1. Mae'r diwygiadau'n galluogi gwaith datblygu a chyflawni yn y dyfodol ym maes Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc yn achos rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd a darparu indemniadau gan Weinidogion Cymru a ragnodir gan reoliadau. Mae hyn yn cynnwys y cynlluniau presennol a gefnogir

gan y wladwriaeth ar gyfer esgeuluster clinigol ar gyfer gofal sylfaenol, gofal y tu allan i oriau a gofal eilaidd.

4.3. **Atal**

4.3.1. Bydd gwneud y diwygiad i adran 30 yn rhoi i Weinidogion Cymru'r pŵer, trwy gyfrwng rheoliadau, i ddiogelu darparu indemniad yn y dyfodol yn GIG Cymru, gan atal y posibilrwydd na fydd Cynlluniau'n diwallu anghenion Ymarferwyr Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol eraill yng Nghymru. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 "continue the promotion in Wales of a comprehensive health service designed to secure improvement in the physical and mental health of the people of Wales and in the prevention, diagnosis and treatment of illness".

4.3.2. Bydd hefyd yn atal ymarfer fel Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru rhag cael ei weld fel dewis llai deniadol o'i gymharu â Lloegr. Bydd hyn yn atal yr anhawster a wynebir gan bractisau Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru wrth recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol rhag cael ei ddwysáu. Bydd hefyd yn cyfrannu at alluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu hymrwymiad a wnaed i wella mynediad i wasanaethau meddygol cyffredinol yn *'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol'*.

4.4. **Integreiddio**

4.4.1. *Ffyniant i bawb:* Mae *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* wedi'i hystyried. Bydd y diwygiad i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn cefnogi'r seilwaith cyfreithiol y mae ei angen i ddarparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

4.5. **Cydweithredu ac Ymwneud**

4.5.1. Mae'r diwygiadau i Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a wneir gan y Bil yn hanfodol er mwyn i Weinidogion Cymru sefydlu ELS trwy reoliadau. Cafodd hyn ei nodi a'i gydnabod yn ystod trafodaethau ag adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU sy'n parhau. Mae'r berthynas weithio ragweithiol â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac NHS Resolution wedi bod yn amhrisiadwy.

4.6. **Effaith**

4.6.1. Bydd y Bil yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru sicrhau sefydlogrwydd tymor hir i Ymarferwyr Cyffredinol a defnyddwyr gwasanaethau GIG Cymru ym maes indemniad esgeuluster clinigol**.** Bydd y diwygiadau a wneir gan y Bil yn cefnogi'r gwaith o barhau i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru. Byddant yn sicrhau ymhellach na fydd Ymarferwyr

Cyffredinol o dan anfantais ym mater pwysig sicrwydd indemniad esgeuluster clinigol a'r gost o'i gymharu â Lloegr neu'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae'r diwygiadau felly'n gam cadarnhaol cyntaf a fydd yn sail i ddarparu ELS ar gyfer GIG Cymru.

4.6.2. Y dewis arall yw gwneud dim byd a chadw'r status quo. Mae hyn yn arwain at y gwrthwyneb i'r manteision a nodir ym mharagraff 4.6.1 uchod gydag Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais mewn perthynas ag indemniad esgeuluster clinigol a'r gost, gydag effaith o ganlyniad i hynny ar eu recriwtio a'u cadw, diffyg pwerau i greu ELS.

## 4.7. Costau ac Arbedion

4.7.1. Mae costau'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith, pan fydd adran 30 wedi'i diwygio. Y costau hyn, sy'n £30,000 yn ôl yr amcangyfrif, yr eir iddynt yn 2019/20 yw'r costau staff a ragwelir, gan gynnwys cymorth cyfreithiol allanol, i weithredu'r Bil gan ddefnyddio'r pwerau newydd y Cynllun Indemniad Uniongyrchol i wneud rheoliadau a gyflwynir gan y Bil. Nid oes unrhyw gostau eraill i'w priodoli i'r Bil.

## 4.8. Mecanwaith

4.8.1. Yr unig fecanwaith a fydd yn arwain at gyflawni'r nod polisi i ddarparu'r ELS yn unol â'r ymrwymiad Gweinidogol yw defnyddio Bil i ddiwygio Adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai o gyrff y Gwasanaeth Iechyd) o Ddeddf GIG Cymru 2006.

## 4.9. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

4.9.1. Ystyriwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn 2004 ac mae ein gwaith yn seiliedig ar gyflawni nodau craidd UNCRC.[11]

4.9.2. Er hynny, o gofio bod y Bil o natur ar wahân nid oes ganddo effaith ar hawliau plant. Nid oes unrhyw newid i ofal iechyd neu fynediad iddo. Mae'r CRIA wedi'i glirio ag Uned CRIA.

## 4.10. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

4.10.1. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ystyried. Nid oes gan y Bil unrhyw effeithiau posibl ar gyfer is-adrannau o wahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig o ran diwygiadau i adran 30

**11** Welsh Government, Children and young people <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/?lang=cy>

o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r EIA wedi cael ei drafod â'r Uned Cydraddoldebau a'i glirio gan Weithrediadau HSS.

4.11. **Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig**

4.11.1. Er na fydd y diwygiad yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion a chymunedau gwledig bydd y diwygiadau'n diogelu gallu cleifion i wneud hawliadau llwyddiannus ar gyfer esgeuluster clinigol yn erbyn Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer gwaith y GIG a chadw hyder i Ymarferwyr Cyffredinol y caiff hawliadau eu hamddiffyn ac y caiff enw da pobl ei ddiogelu. Bydd yr effeithiau cadarnhaol ar recriwtio a chadw'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol gwledig.

4.12. **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**

4.12.1. Rydym wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac yn ein barn ni nid oes angen cwblhau effaith iechyd fanwl gan fod y diwygiadau o natur ar wahân.

4.13. **Preifatrwydd**

4.13.1. Nid yw'r Bil yn cynnwys prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i enwi unigolion.

4.14. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

4.14.1. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Bernir bod y Bil yn niwtral o ran ei effaith.

4.15. **Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder**

4.15.1 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder (JIA) wedi'i gwblhau a asesodd na fydd unrhyw effaith ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn codi o gofio natur y Bil. Mae'r JIA wedi'i anfon at y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w ystyried. Caiff dolen i'r JIA ei hychwanegu maes o law ar ôl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder roi ei hymateb / cliriad.

4.16. **Casgliad**

***Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?***

4.16.1. Bydd y diwygiadau i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol trwy reoliadau. Yn y dyfodol agos, gan ddefnyddio'r pwerau newydd, bydd Gweinidogion Cymru'n sefydlu ac yn nodi'r trefniadau gweinyddu ar gyfer ELS.

4.16.2. Aed ati i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid ers y cyhoeddiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cynllun indemniad clinigol a gefnogir gan y wladwriaeth ar 14 Mai 2018. O gofio natur ar wahân y diwygiadau a wneir gan y Bil ychydig o gyfle yn unig sydd, os oes cyfle o gwbl, i ddylanwadu ar y canlyniad polisi trwy ymgynghori agored â'r cyhoedd. O ganlyniad ni chynhaliwyd ymarfer ymgynghori.

***Beth yw'r effeithiau mwyaf sylweddol, rhai cadarnhaol a negyddol?***

4.16.3. Rydym wedi ystyried nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig, Cymru gynaliadwy a Chymru gydnerth. Mae nodau ac amcanion y cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth, a fydd yn cynnig mwy o sicrwydd tymor hir ar gyfer darpariaeth barhaus gwasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru, yn adlewyrchu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.16.4. Bydd y Bil yn diwygio Adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai o gyrff y Gwasanaeth Iechyd) Deddf GIG (Cymru) 2006.

4.16.5. Effaith gadarnhaol hyn fydd:

a) Cynyddu pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â darparu cynlluniau indemniad ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru.

b) Galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried atebolrwydd Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer yr hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol hynny yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019.

c) Darparu sylfaen ddeddfwriaethol cynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol Cyffredinol yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru am na fydd unrhyw Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais mewn perthynas â'r ddarpariaeth a gefnogir gan y wladwriaeth o indemniad esgeuluster clinigol o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

4.16.6. Ni welwn unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i'r Bil hwn.

## 4.17. **Asesu'r Gystadleuaeth**

4.17.1. Mae asesiad o'r gystadleuaeth wedi'i gynnal i asesu effaith bosibl diwygio adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Ni ddisgwylir i'r polisi hwn gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth o fewn

y farchnad indemniad meddygol yn ôl disgresiwn ar gyfer gwaith y GIG. Mae canlyniadau prawf hidlo (sy'n cynnwys naw cwestiwn ie/nage) sy'n ategu'r casgliad hwn isod, wedi'i ddilyn gan dystiolaeth i ategu'r atebion.

4.17.2. Prawf hidlo ar gyfer y diwygiad i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006.

| Cwestiwn | Ateb: Ie neu Nage |
|---|---|
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o dros 20% o'r farchnad? | Oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, o leiaf 50% o'r farchnad? | Oes |
| **C4:** A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau lawer iawn mwy nag eraill? | Byddai |
| **C5:** A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Ydy |
| **C6:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu? | Byddai |
| **C7:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer | Byddai |

| | |
|---|---|
| cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu? | |
| **C8:** A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector? | Oes |
| **C9:** A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu nwyddau? | Na fyddai |

4.17.3. Nid yw'r Bil yn effeithio ar y farchnad ar gyfer indemniad meddygol clinigol - mae'n ymwneud â chynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sefydlu Cynlluniau Indemniad Uniongyrchol (yn y dyfodol agos, yr ELS fydd hyn). Fel rhan o'r trefniadau ELS, bydd MDOs sy'n cymryd rhan yn trosglwyddo eu cyfrifoldeb dros ystyried atebolrwydd Ymarferydd Cyffredinol ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol yn ymwneud â gwaith y GIG ( fel yr amlinellir ym mharagraff 3.8 o'r Memorandwm Esboniadol) i Lywodraeth Cymru. Nid effeithir ar y MDO (s) sy'n cymryd rhan ymhellach ar ôl y digwyddiad hwn. Mae unrhyw MDO nad yw'n cymryd rhan yn yr ELS arfaethedig yn cadw'r cyfrifoldeb hwn dros atebolrwyddau aelodau Ymarferwyr Cyffredinol hanesyddol ac nid effeithir arno yn sgil cyflwyno rheoliadau ELS a wneir yn unol â'r adran 30 ddiwygiedig o Ddeddf GIG (Cymru) 2006.

## Adolygu ar ôl gweithredu

4.18. Pan fydd y Bil wedi cael y Cydsyniad Brenhinol, yr amcan polisi yw:

i. sefydlu ELS trwy reoliadau a wneir yn unol ag adran 30, yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried atebolrwydd Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer yr hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol hynny yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1Ebrill 2019.
ii. monitro gweithrediad ELS, ynghyd â FLS GMPI i ystyried eu heffeithiolrwydd yng nghyd-destun cynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol.

4.19. Rydym o'r farn y bydd y diwygiadau i Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn ddigonol at y dyfodol agos.

4.20. Byddwn yn adolygu adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn ôl yr angen ond rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd angen diwygiad pellach yn y dyfodol agos.

# Atodiad 1

## Nodiadau Esboniadol

# BIL Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (INDEMNIADAU) (CYMRU)

---

NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Hydref 2019. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

2. Mae'r Bil yn diwygio adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"). Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch indemnio personau a chyrff am dreuliau ac atebolrwyddau sy'n codi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac yn creu pŵer newydd i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â chynlluniau indemniad uniongyrchol.

**ADRAN 30 – DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006**

3. Mae adran 30 o Ddeddf 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynllun fel y gall cyrff penodol wneud darpariaeth i dalu treuliau am golled neu ddifrod i'w heiddo, ac i fodloni atebolrwyddau i drydydd partïon am golled, difrod neu anaf sy'n codi wrth i'r cyrff hynny gyflawni eu swyddogaethau. Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yw'r cyrff hyn.

**SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

**Adran 1 – Indemniadau mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau iechyd**

4. Mae is-adran (2) o adran 1 o'r Bil yn mewnosod y diffiniad o gynllun indemniad cydfuddiannol ("mutual indemnity scheme") yn is-adran (1) o adran 30 o Ddeddf 2006. Mae cynnwys y term diffiniedig yn gwahaniaethu'r cynlluniau hynny a wneir yn unol ag is-adran (1), pan fo sawl corff gwasanaeth iechyd yn talu eu treuliau ac yn bodloni eu hatebolrwyddau drwy gyfuno adnoddau mewn cronfa ar y cyd, oddi wrth y cynlluniau hynny a wneir o dan yr is-adran newydd (8) a elwir yn gynlluniau indemniad uniongyrchol ("direct indemnity schemes").

5. Mae is-adran (3) o adran 1 o'r Bil yn ychwanegu at y cyrff a gaiff wneud darpariaeth o fewn cynllun indemniad o dan adran 30. Y cyntaf o'r cyrff newydd hyn yw person sy'n darparu neu sydd wedi darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol. Byddai hyn yn cynnwys Ymarferwyr Cyffredinol. Yr ail ychwanegiad yw corff, neu berson arall, sy'n darparu neu sy'n trefnu i ddarparu gwasanaethau iechyd, neu a ddarparodd neu a drefnodd i ddarparu gwasanaethau iechyd (ac eithrio corff sydd eisoes wedi ei restru yn is-adran (2)) o dan drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, berson sy'n darparu gwasanaethau o dan gontract â Bwrdd Iechyd Lleol.

6. Mae is-adran (5) o adran 1 o'r Bil yn mewnosod enwau'r cyrff y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo i gymryd rhan mewn cynllun indemniad cydfuddiannol yn unol â'u pŵer yn is-adran (4) o adran 30 o Ddeddf 2006. Mae'n ofynnol egluro hyn o ganlyniad i'r rhestr hwy o gyrff sydd wedi ei chynnwys yn is-adran (2) o adran 30.

7. Mae is-adran (8) o adran 1 o'r Bil yn mewnosod is-adrannau newydd (8) i (11) yn adran 30 o Ddeddf 2006.

8. Mae'r is-adran newydd (8) o adran 30 yn creu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sefydlu cynllun statudol y cânt indemnio'r personau neu'r cyrff yn is-adran (2) odano. Mae'r Bil yn enwi'r rhain yn gynlluniau indemniad uniongyrchol ("direct indemnity schemes").

9. Mae'r is-adran newydd (9) yn darparu rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r hyn y caiff rheoliadau sy'n sefydlu cynllun indemniad uniongyrchol ei ragnodi, gan gynnwys, er enghraifft, pwy sy'n berson cymwys, a pha atebolrwyddau neu dreuliau y caniateir eu hindemnio drwy gynllun o'r fath.

10. Mae'r is-adran newydd (10) o adran 30 yn ei gwneud yn glir nad oes dim yn adran 30 sy'n atal Gweinidogion Cymru rhag arfer eu pwerau i ddarparu indemniadau i unrhyw berson ac eithrio'r rheini sydd wedi eu rhestru yn is-adran (2), neu rhag darparu mathau gwahanol o indemniadau i'r cyrff hynny sydd wedi eu rhestru yn is-adran (2).

11. Mae is-adran newydd (11) yn darparu diffiniad o swyddogaethau ("functions").

12. Mae'r Bil hefyd yn gwneud nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i adran 30 o ganlyniad i'r darpariaethau o sylwedd.

**Adran 2 – Enw byr a dod i rym**

13. Enw byr y Bil yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) 2020 (adran 2(1)).

14. Daw'r Bil i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol.

**COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

15. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Bil drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Bil hwn ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:
http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-progress-bills/Pages/bus-legislation-progress-bills.aspx

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 14 Hydref 2019 |
| Cyfnod 1 – Dadl | |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad | |
| Y Cydsyniad Brenhinol | |

# Atodiad 2

## Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl B

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad | Datganiad yr Aelod | Tudalen 2 (Datganiad yr Aelod), a thudalen 4, paragraff 2.1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 4 – 8, paragraffau 3.1 – 3.18 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 22 – 23, paragraffau 4.6.2 a 4.8.1 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br><br>(b) manylion y Bil, a<br><br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 9-10, paragraffau 4.1 -- 4.5 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Amherthnasol |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen10, paragraff 4.5 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalenau 29 – 31 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/paragraffau |
|---|---|---|---|
| | a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | | |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 13 – 14, paragraffau 1.3 – 1.10 a Thabl A |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 13 – 20, paragraffau 1.1 – 1.8 a Thabl A, paragraffau 2.1 – 2.8 ac 3.1 – 3.11 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/paragraffau |
|---|---|---|---|
| | deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | | |
| 26.6(x) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath:<br><br>(a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 10 – 12, paragraffau 5.1 a 5.2 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | Tudalen 13, paragraff 1.2 |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 24, paragraff 4.15.1 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi. | Amherthnasol |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad | Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau | Tudalennau 38-42 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/paragraffau |
|---|---|---|---|
| | deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | | |

# Atodiad 3

# Atodlen o ddiwygiadau

**DEDDF Y GWASANETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006**

**Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN FIL Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (INDEMNIADAU) (CYMRU)**

Mae Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) wedi'i ddrafftio i ddiwygio adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2016.

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth iechyd (Cymru) 2006 fel yr oedd yn gymwys o ran Cymru ar 13 Medi 2019 yn edrych fel y'i diwygid gan Fil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) (pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynwyd ar 14 Hydref 2019).

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. <u>mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn</u>. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

| **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006** | ***Yr adran ddiwygio ym Mil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)*** |
|---|---|
| **30 Schemes for meeting losses and liabilities etc of certain health service bodies** | |
| (1) The Welsh Ministers may by regulations establish a scheme (a "mutual indemnity scheme") whereby any of the bodies or other persons specified in subsection (2) may make provision to meet– | **1(2)(a)** **1(2)(b)** |
| (a) expenses arising from any loss of or damage to their property, and | |
| (b) liabilities to third parties for loss, damage or injury arising out of the carrying out of the functions of the bodies or other persons concerned. | **1(2)(b)** |
| (2) The bodies and other persons referred to in subsection (1) are– | **1(3)(a)** |
| (a) Local Health Boards, | |
| (b) NHS trusts, ~~and~~ | **1(3)(b)** |
| (c) Special Health Authorities | |
| (d) … | |
| (e) … | |
| (f) a person who is providing, or who has provided, primary medical services in accordance with a contract or other arrangement under Part 4, and | **1(3)(c)** |
| (g) a body or other person (other than a body or other person specified under paragraphs (a) to (f)) who is providing or arranging the provision of, or who has provided or arranged the provision of, health services whose provision is the subject of a contract or other arrangements with a Local Health Board, NHS trust or Special Health Authority, | |
| but a ~~scheme under this section~~ mutual indemnity scheme may limit the class or description of bodies which, or other persons who, are eligible to participate in it. | **1(3)(d)(i)** **1(3)(d)(ii)** |
| (3) A ~~scheme under this section~~ mutual indemnity scheme may, in particular— | **1(4)(a)** |
| (a) provide for the scheme to be administered by the Welsh Ministers or by an NHS trust or Special Health Authority specified in the scheme, | |
| (b) require any body which, or other person who, participates in the scheme to make payments in accordance with the scheme, and | **1(4)(b)** |
| (c) provide for the making of payments for the purposes of the scheme by the Welsh Ministers. | |

(4) If the Welsh Ministers so direct a ~~body~~ Local Health Board, NHS trust or Special Health Authority which is eligible to participate in a scheme must do so. **1(5)**

(5) Where a ~~scheme~~ mutual indemnity scheme provides for the scheme to be administered by the Welsh Ministers, a Special Health Authority or NHS trust must carry out such functions in connection with the administration of the scheme as the Welsh Ministers may direct. **1(6)**

(6) Subsections (4) and (5) do not affect any other power of direction of the Welsh Ministers.

(7) A person or body administering a ~~scheme under this section~~ mutual indemnity scheme does not require permission under any provision of the Financial Services and Markets Act 2000 (c. 8) as respects activities carried out under the scheme. **1(7)**

(8) The Welsh Ministers may by regulations establish a scheme (a “direct indemnity scheme”) under which they may indemnify any of the bodies or other persons specified in subsection (2) against— **1(8)**

(a) expenses arising from any loss of or damage to their property, and

(b) liabilities to third parties for loss, damage or injury arising out of the carrying out of the functions of the bodies or other persons concerned.

(9) A direct indemnity scheme may, in particular–

(a) specify the persons or other bodies eligible to be indemnified (including limiting the class or description of bodies or other persons who are eligible);

(b) specify the expenses and liabilities in respect of which a body or other person may be indemnified and the extent to which they may be indemnified;

(c) require any body or other person indemnified under the scheme to make payments in accordance with the scheme.

(10) Nothing in this section limits or affects the powers of the Welsh Ministers under this Act, or any other enactment, to provide an indemnity—

(a) to any person other than the bodies or other persons specified in subsection (2), or

(b) to a body or other person specified in subsection (2) in respect of any expenses or liabilities other than those mentioned in subsections (1) and (8).

(11) In this section—

(a) in subsections (1)(b) and (8)(b) “functions”, in relation to a body or other person specified in subsection (2)(g), means the body's or person's functions of providing, or arranging the provision of, health services whose provision is the subject of a contract or other

arrangements with a Local Health Board, NHS trust or Special Health Authority.

(b) in subsection (2) and in paragraph (a) of this subsection "health services" means services provided as part of the health service.